Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol
Carchar EF Abertawe
200 Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SR

**Cyf MoJ:** SUB121697

20 Chwefror 2025

Annwyl Gadeirydd,

**CARCHAR EF ABERTAWE: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 TACHWEDD 2022 – 31 HYDREF 2023**

Diolch am gyflwyno adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar Garchar EF Abertawe yr wyf wedi'i ddarllen yn ofalus. Fel arfer, rwyf yn ddiolchgar i chi ac i'ch cydweithwyr am eich gwaith caled yn cofnodi eich arsylwadau buddiol. Roedd hyn yn arbennig o glodwiw am eich bod wedi parhau i brofi diffyg sylweddol yn nifer aelodau'r Bwrdd drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

Roedd yn ddrwg iawn gen i glywed bod tri charcharor wedi marw yn ystod y cyfnod adrodd. Hoffwn estyn fy nghydymdeimlad i'w holl ffrindiau a'u teuluoedd ac mi hoffwn hefyd sicrhau'r Bwrdd bod yr argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn cael eu cymryd o ddifrif. Roedd yn galonogol darllen bod y Bwrdd o'r farn bod cefnogaeth ddigonol wedi'i darparu i garcharorion eraill a oedd yn ddealladwy wedi'u heffeithio gan y marwolaethau hyn.

Rwyf yn deall eich pryderon am nifer y carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol a'r heriau penodol a brofir wrth geisio diwallu anghenion rhai sy'n gwasanaethu dedfrydau byr. Rydych wedi adrodd yn bositif wrth nodi bod gan Garchar EF Abertawe dîm iechyd meddwl pwrpasol yn awr ac roeddwn yn falch o hysbysu Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai fod y tîm hwn wedi hwyluso cyfathrebu a chydweithredu gwell â'r gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol a bod cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal lle mae pob atgyfeiriad newydd yn cael eu trafod. Mae anghenion dynion sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu rheoli drwy'r cyfarfodydd hyn i sicrhau bod atgyfeiriadau amserol yn cael eu gwneud at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol a bod cymorth iechyd meddwl parhaus yn cael ei ddarparu.

Rwyf yn ymwybodol bod cyfnod byr o gaethiwed yn gallu bod yn ddechrau bywyd o aildroseddu i rai ac nad yw caethiwed o'r fath yn effeithiol bob amser o ran atal nac adsefydlu. Yn ddiweddar lansiodd y Llywodraeth Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu sy'n gweithredu ar ein hymrwymiad i wneud dedfrydu'n gyfoes ac i sicrhau bod cysondeb yn y fframweithiau dedfrydu. Bydd yr Adolygiad yn bwrw 'golwg o'r newydd' ar opsiynau dedfrydu, a fydd yn cynnwys ymchwilio i ddefnydd ac i effaith dedfrydau byr o garchar a'r holl opsiynau amgen sydd ar gael. Mae hwn yn adolygiad positif ac amserol a fydd yn sail i ddull dedfrydu sy'n ymdrechu i roi sylw i lawer o bryderon y Bwrdd. Rwyf wedi cael fy hysbysu hefyd bod Carchar EF Abertawe yn cydweithio â chydweithwyr Prawf i gefnogi dynion sy'n gwasanaethu dedfrydau byr yn well. Mae safonau a sicrwydd cenedlaethol wedi'u cyflwyno i wella ansawdd y cysylltiadau rhwng y Rheolwyr Troseddwyr yn y Ddalfa a'r carcharor gyda'r nod o wneud hyn mor gynhyrchiol â phosibl drwy 'gychwyn y ddedfryd yn iawn'. Mae Rheolwyr Troseddwyr yn y Ddalfa wedi'u hyfforddi i ddarparu ymyriadau mewn perthnasoedd a sgiliau meddwl, gan gynnwys rhai sy'n benodol ar gyfer rhai o dan 25

oed. Gellir parhau neu adeiladu ar unrhyw waith sydd wedi'i ddechrau yn y ddalfa wedyn yn y gymuned fel gofyniad goruchwyliaeth trwydded.

Mae gan lety diogel a sefydlog rôl allwedd mewn lleihau aildroseddu a gwella diogelwch y cyhoedd. Er bod heriau o hyd, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yng Nghymru wedi ymrwymo i adeiladu ar fentrau sy'n rhoi sylw i'r materion hyn. Mae HMPPS yng Nghymru'n cefnogi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd, gyda phwyslais arbennig ar ymyrryd cynnar a mesurau atal, gan gynnwys gwaith wedi'i dargedu gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill. Ers ehangu'r gwasanaeth llety trosiannol 12 wythnos (a adwaenir gynt fel y *Gwasanaeth Llety Cymunedol Haen 3 neu CAS3*), i Gymru ym Mehefin 2022, mae trefniadau grant yn awr ar gael ar gyfer hyd at 174 gofod gwely sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Awdurdod Lleol Abertawe wedi cynyddu defnydd o lety dros dro CAS3 ar gyfer rhai sy'n gadael carchar ac mae cytundeb grant newydd â Chastell-nedd Port Talbot hefyd wedi ehangu mynediad uniongyrchol at lety i unigolion sy'n gadael Carchar EF Abertawe. Mae'r cydweithrediad strategol hwn yn galluogi HMPPS i sicrhau amgylchedd sefydlog ar gael i unigolion pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

Hefyd, mae gwasanaeth llety'r Gwasanaeth Adsefydlu a Gomisiynwyd (CRS) yng Ngharchar EF Abertawe yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth llety, ac mae hynny'n cynnwys drwy wybodaeth a chymorth arbenigol i garcharorion i gael neu i gadw llety/tenantiaethau presennol, Mae gwasanaethau CRS yn gweithio ochr yn ochr â thimau carchardai i atal digartrefedd pan fydd carcharorion yn cael eu rhyddhau. Yn ogystal â charcharorion wedi'u dedfrydu, cafodd y gwasanaethau hyn eu hehangu'n ddiweddar i gynnwys yr holl ddynion sy'n cael eu cadw ar remand yn y ddalfa. Bydd y gwasanaeth ychwanegol hwn yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth llety brys a phrydlon i rai sy'n mynd i'r ddalfa i'w helpu i gadw tenantiaethau ac i roi sylw i unrhyw anghenion brys a nodir gan garcharorion ar remand i atal digartrefedd.

Roeddwn yn falch o ddarllen y sylwadau positif niferus gan y Bwrdd yn ymwneud â thriniaeth a phrofiadau dynion sy'n gwasanaethu eu dedfryd yng Ngharchar EF Abertawe, ac yn enwedig eich bod o'r farn ei fod yn garchar diogel. Roedd yn galonogol clywed hefyd bod gostyngiad o 23% o flwyddyn i flwyddyn wedi bod yn nifer yr achosion o hunan-niweidio ac er bod cynnydd ym mhoblogaeth y carchar, mae hunan-niweidio'n parhau i fod yn gymharol isel. Mae unrhyw achos fodd bynnag yn achos pryder ac mae'r ymdrechion parhaus yng Ngharchar EF Abertawe i leihau niwed i'w canmol. Rwyf hefyd yn cytuno â chi y dylai'r carchar gael ei ganmol am gyflogi rheolwr cymorth niwroamrywiaeth gyda dosbarthiadau dyddiol yn cael eu cynnal i ddynion â nodweddion niwroamrywiol.

Roedd yn ddiddorol iawn darllen am y cyfleoedd gwaith a hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael i'r dynion yng Ngharchar EF Abertawe ac am y cysylltiadau â chyflogwyr perthnasol cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae datblygu academi adeiladu yn y carchar, sy'n meithrin cysylltiadau â darparwyr addysg a chyflogwyr lleol yn y diwydiant adeiladu'n fenter bositif a chyffrous.

Nodaf eich bod wedi mynegi tri mater lleol yn eich adroddiad sy'n achos pryder ac y bydd y Llywodraethwr yn cadw mewn cysylltiad â chi ynglŷn â'r rhain wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae sylwadau HMPPS mewn ymateb i'r mater arall a godwyd yn eich adroddiad wedi'i gynnwys yn yr atodiad amgaeedig.

Mae'r Arglwydd Ganghellor a minnau'n gwerthfawrogi'r rôl sy'n cael ei chwarae gan aelodau Byrddau Monitro Annibynnol o fewn yr ystâd ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich gwaith caled ar ran Carchar EF Abertawe.

Yn gywir,

James

**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf, a Lleihau Aildroseddu**

**CARCHAR EF ABERTAWE: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 TACHWEDD 2022 – 31 HYDREF 2023**

## Sylwadau HMPPS ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Perfformiad Cynnal a Chadw

Mae HMPPS wedi gwario tua £10,000 wrth barhau â gwaith ar y rhaglen adnewyddu celloedd yng Ngharchar EF Abertawe ar dynnu ac ychwanegu rhanwyr celloedd yn adain B ac C a gwblhawyd ym mis Mai 2024. Hefyd, mae system rheoli mwg yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd ail-dendro yn digwydd am y gwaith cyn gynted ag y bydd yr achos masnachol gyda'r gweinyddwyr wedi'i gwblhau, ac ar yr adeg honno bydd amserlen newydd ar gyfer cyflawni'r gwaith yn cael ei chyhoeddi. O ran dwyn Amey Projects i gyfrif mae system ar waith i gyhoeddi Hysbysiadau o Ddiffygion, a all arwain at gyhoeddi cosbau ariannol, os na fydd y gwaith a wneir yn cyrraedd y manylebau gofynnol.